# CWRS ACHREDEDIG AGORED CYMRU

Digido deunyddiau ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau
Lefel 2 Credyau 3
CK42CY001

Fel rhan o gynllun ymgysylltu â'r gymuned mae Casgliad y Werin Cymru, (yn gweithio mewn partneriaeth â Dysgu Bro), yn medru cynnig hyfforddiant mewn digido a gall arwain at gwrs achredediq ar Fframwaith Cymhwyster a Fframwaith Credyd Agored Cymru.
Bydd unigolion sydd wedi cael yr hyfforddiant digido safonol yn medru symud ymlaen i gwblhau'r cwrs achredu. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau'r llyfryn sy'n cyd-fynd a'r cwrs drwy ddilyn y meini prawf fel y nodir yn y llyfryn. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn Tystysgrif Agored Cymru.

Gall y 3 Credyd ar gyfer y cwrs hwn cael ei ddefnyddio i adeiladu portffolio o gyrsiau sydd yn gallu arwain at Ddiploma. Gallai'r cwrs achredediq darparu'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gael mynediad i'r gweithle.

Beth mae'r cwrs achredediq yn ei olygu?

Bydd gofyn i chi fynychu un o'r diwrnodau hyfforddiant digido Casgliad y Werin Cymru.
Bydd hyn yn rhoi i chi'r wybodaeth a'r sgiliau ymarferol ar gyfer arfer safonol mewn digido i'ch galluogi i gwblhau'r cwrs .
Bydd angen dilyn 4 Canlyniadau Dysgu gydag ystod o feini prawf sydd angen eu cwblhau.

Mae'r Canlyniadau Dysgu yn dangos eich bod yn:
- Gallu cymhwyso hawlfraint i ddeunydd ar gyfer digido
- Gallu cofnodi metadata technegol ar gyfer cadwraeth a dibenion archifol
- Gallu digido deunydd 2D
- Gallu paratoi delweddau digidol i'w harddangos ar y we

Faint fydd y cwrs yn ei gostio?

Y tâl am y cwrs hwn yw £15 i bob unigolyn. Dylid gwneud y taliad yn uniongyrchol i 'Dysgu Bro', a fydd yn gyfrifol am yr holl waith gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau efallai y bydd eich cyflogwr yn hapus i dalu am hyn . Gallwn ddarparu manylion ar gyfer eich cyflogwr i esbonio hynny.

Lle bydd angen i mi fynd i wneud y cwrs?

Un o fanteision o gyflwyno'r cwrs yma yw y gallwch wneud y cwrs naill ai yn eich man gwaith neu yn y cartref . Byddem fel arfer yn gweithio gyda staff neu wirfoddolwyr naill ai yn llyfrgelloedd, amgueddfeydd neu archifau, gan y byddai hyn yn rhoi i chi'r offer a'r deunydd sydd eu hangen i gwblhau'r cwrs. Er hynny os ydych yn wirfoddolwr ar gyfer grŵp neu gymdeithas treftadaeth neu wirfoddolwr mewn llyfrgell , amgueddfa neu archifau byddwch yn dal i allu gwneud y cwrs mond eich bod yn gallu dangos eich dealltwriaeth o'r meini prawf fel y rhestrir yn y llyfryn.
Bydd un o'n haseswyr yn dod allan i'ch man gwaith i asesu elfennau ymarferol o'r meini prawf. Gwneir hyn fel arfer ar y sganiwr eich bod yn gyfarwydd â gweithio gyda . Yn dilyn hynny bydd angen i chi gwblhau gweddill y llyfryn. Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r llyfryn bydd rhaid i chi anfon y llyfryn atom ar gyfer dilysu mewnol. Os ydym yn fodlon â safon y gwaith a gynhyrchir byddwn wedyn yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i ardystio'ch gwaith ac fe fyddwch yn derbyn tystysgrif i ddangos hynny.

Pa mor hir mae'r cwrs yn ei gymryd i gwblhau?

Bydd hyn yn dibynnu ar eich ymrwymiad ac ar faint o amser sydd gennych i wneud y cwrs. Rydym yn gobeithio cynnal y cwrs o fewn yr amserlen academaidd. Mae hyn yn golygu y byddwch yn gallu dilyn y cwrs ar unrhyw adeg rhwng dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi hyd at ddiwedd y mis Gorffennaf dilynol. Bydd amserlen yr asesu yn dibynnu ar argaeledd ein aseswr i'ch arsylwi yn gwneud yr elfennau ymarferol y cwrs . Byddwn yn ymdrechu i fod yn hyblyg yn yr achos yma er mwyn peidio ag oedi ymgeiswyr yn ormodol. O ran weddill y cwrs bydd y gofynion yn dibynnu ar eich mewnbwn chi yn unig.

Beth yw manteision o wneud y cwrs hwn?

Rydym bellach yn byw mewn byd digidol, gyda llyfrgelloedd ac amgueddfeydd neu archifau yn gweithio'n gyson i ddigido deunydd ar gyfer y we. Gallai ennill achrediad yn yr uned hon fod yn ddefnyddiol os byddech yn ystyried gweithio yn y sector hwn. Mae Casgliad y Werin Cymru ar hyn o bryd wrthi yn sefydlu Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol ar draws Cymru. Byddai'r rhain yn darparu gwasanaeth digido ar gyfer defnyddwyr gyda diddordeb mewn treftadaeth ac sydd angen cyngor am sganio a digido ar gyfer y we.
Bydd cyfleoedd pellach i chi fod yn wirfoddolwr neu bencampwr mewn sefydliad cynnal sydd â Gorsaf Treftadaeth Ddigidol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Hazel Thomas
Rheolwr Uned
Casgliad y Werin Cymru
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
01970 632 800
casgliadywerin@llgc.org.uk